Taflen Ffeithiau Personél a Chyflogaeth

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymdrin â phroblemau personél a chyflogaeth. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r daflen wybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae'r Daflen Ffeithiau hon wedi'i hanelu'n bennaf at bobl sy'n cael eu cyflogi gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru (er enghraifft, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol – gan gynnwys Cynghorau Cymuned a Thref – a'r GIG), sydd â phroblem sy'n gysylltiedig â'u swydd ac sy'n ystyried cwyno i'r Ombwdsmon.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Gall yr Ombwdsmon ystyried cwynion am y canlynol:

- gweithdrefnau recriwtio; a,
- gweithdrefnau penodi.

Mae gwaith yr Ombwdsmon o edrych ar gwynion sy'n ymwneud â materion cyflogaeth wedi'i gyfyngu i'r ddau faes uchod.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni all ymchwilio i gwynion am faterion cyflogaeth megis y canlynol:

- trefniadau disgyblu;
- trefniadau cwyno;
- penderfyniadau i derfynu swydd, boed hynny drwy ddileu swydd neu ddiswyddo;
- cyflog neu fuddiannau ymarferol eraill, megis car cwmni neu fenthyciadau ar gyfer tocynnau tymor;
- pensiynau;
- tâl salwch a thâl mamolaeth;
- y ffordd y mae'r corff yn trin ei staff, megis yr hawl i absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tadolaeth;
- bwlio yn y gweithle;
- problemau iechyd sy'n gysylltiedig â gwaith;
- anghytundeb ar gwmpas neu delerau eich swydd;
- anghydfodau diwydiannol, megis streiciau neu weithio i reol.

Bydd gan lawer o achwynwyr yr hawl i fynd i Dribiwnlys Cyflogaeth i geisio datrys eu cwynion.

Materion i gadw mewn cof

Er bod cyfyngiad ar y math o gwynion yn ymwneud â materion cyflogaeth a phersonél y gall yr Ombwdsmon ymchwilio iddynt, gall, er hynny, ymchwilio i gwynion a wneir gan gyflogai Cyngor fel defnyddiwr gwasanaeth yn achos gwasanaethau maent yn eu cael gan y Cyngor, er enghraifft, problemau ag addysg, tai neu wasanaethau cymdeithasol. Gellir ymchwilio i'r cwynion hyn yn y ffordd arferol, ac nid yw'n gwneud gwahaniaeth bod y sawl sy'n cwyno'n cael ei gyflogi gan y Cyngor.

Os ydych yn cael eich cyflogi gan y Cyngor (neu'n aelod ohono) a bod gennych gŵyn yn erbyn y gwasanaethau mae'r cyngor yn eu darparu i chi, dylech ddarllen y Daflen Ffeithiau berthnasol ar gyfer y math hwnnw o gŵyn.

Gwybodaeth bellach

Yn aml bydd materion cyfreithiol cymhleth ynghlwm wrth broblemau cyflogaeth a phersonél a dylech wneud yn siŵr eich bod yn derbyn cyngor priodol.

- Os ydych yn aelod o Undeb Llafur dylech gysylltu â'r Undeb yn uniongyrchol oherwydd gallai fod mewn sefyllfa i'ch helpu.
- Gall Cyngor ar Bopeth roi cyngor am ddim. Gallwch ddod o hyd i'ch cangen agosaf yn y llyfr ffôn ac mae'r wefan yn cynnwys adran ar gyngor ar faterion cyflogaeth: http://www.adviceguide.org.uk/wales.htm
- Bydd llawer o gyfreithwyr yn gallu cynnig cyngor ar broblemau personél a chyflogaeth; fodd bynnag, codir tâl am y cyngor hwn fel arfer.

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ac amhleidiol; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn mae'n ei argymell - ond, fel arfer, maent yn gwneud hynny bron yn ddieithriad.

Ceir enghreifftiau o achosion y mae'r Ombwdsmon wedi ymchwilio iddynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombwdsmon-cymru.org.uk.

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ